monmouthshire
sir fynwy

**PENDERFYNIADIAU AELOD CABINET UNIGOL**
**COFNOD PENDERFYNIADAU**

**DYDDIAD GWNEUD PENDERFYNIAD: Dydd Mercher, 21 Awst 2024**

**DAW'R PENDERFYNIAD I RYM AR: Dydd Gwener, 2 Medi 2024**
Gall penderfyniadau a wneir gan y cabinet llawn ac aelodau unigol o’r cabinet gael eu “Galw Mewn” gan y Pwyllgor Dethol perthnasol. Os caiff penderfyniad ei alw mewn, ni fydd yn dod i rym fel y nodir uchod a chaiff ei gyflwyno eto maes o law.

| Eitem Rhif | Teitl | Diben, Ymgynghoriad ac Awdur | Datganiad Diddordeb | Penderfyniad |
|---|---|---|---|---|
| **1** | GWEITHGOR CRONFA'R DEGWM | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | DATRYS:<br>Penderfynodd y Pwyllgor fod y grantiau canlynol yn cael eu dyfarnu yn unol â'r amserlen geisiadau.<br><br>**RHESTR O GEISIADAU A YSTYRIWYD 2023/24 - CYFARFOD 1**.<br><br>1. Neuadd Bentref Llanwenarth - maent wedi ceisio am £2,000 i amnewid to'r Neuadd sydd wedi methu, ac sy'n arwain at ddŵr yn dod i mewn.<br><br>Argymhelliad: Dyfarnwyd £2,000 i gynorthwyo'r neuadd i amnewid y to ar yr ased cymunedol hwn.<br><br>2. Eglwys y Santes Fair, Llanfair Is Coed - maent wedi ceisio am £3,000 i ariannu'r gwaith o ailadeiladu Mur y Fynwent a gwympodd yn hydref 2023.<br><br>Argymhelliad: Dyfarnwyd £1,000 i helpu i atgyweirio wal mynwent yr eglwys.<br><br>3. Eglwys Sant Wonnow, Llanwarw - maent wedi ceisio am £2,000 i helpu i atgyweirio tŵr yr eglwys.<br><br>Argymhelliad: Dyfarnwyd £1,500 i helpu i atgyweirio tŵr yr eglwys.<br><br>4. Canolfan Gymunedol Goetre - maent wedi ceisio am £2,000 i brynu offer storio ar gyfer y Ganolfan Gymunedol ac offer arlwyo ar gyfer gwerthu lluniaeth i'r grwpiau cymunedol sy'n defnyddio'r ganolfan.<br><br>Argymhelliad: Gohiriwyd y cais gan fod y Pwyllgor wedi gofyn am ragor o wybodaeth oddi wrth yr ymgeisydd.<br><br>5. Eglwys Sant Pedr - maent wedi ceisio am £3,598 ar gyfer atgyweirio cofebau wal diffygiol / difrodedig, er diogelwch yr eglwys<br><br>Argymhelliad: Gohiriwyd y cais gan fod y Pwyllgor wedi gofyn am ragor o wybodaeth oddi wrth yr ymgeisydd.<br><br>6. Eglwys Sant Teilo, Llandeilo Gresynni - maent wedi ceisio am £1,000 ar gyfer symud coed marw ym mynwent yr eglwys a thocio coeden leim heintiedig ym maes parcio'r eglwys<br><br>Argymhelliad: Dyfarnwyd £1,000 i helpu i gael gwared ar goed marw a chynnal y dail presennol ym maes parcio'r eglwys.<br><br>7. Grŵp Ieuenctid Cil-y-coed - maent wedi ceisio am £1,000 ar gyfer |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ailaddurno mewnol Canolfan Ieuenctid y Parth yng Nghil-y-coed.<br><br>Argymhelliad: Dyfarnwyd £750 i hwyluso adfywio ased cymunedol a ddefnyddir gan grwpiau ieuenctid lleol.<br><br>8. Pwyllgor Digwyddiadau Cil-y-coed - maent wedi ceisio am £1,532 ar gyfer prynu Gasebo Nadolig Chwyddadwy i'w ddefnyddio gan grwpiau Cymunedol yn ystod tymor yr ŵyl.<br><br>Argymhelliad: Gohiriwyd y cais gan fod y Pwyllgor wedi gofyn am ragor o wybodaeth oddi wrth yr ymgeisydd.<br>9. Clwb Pêl-droed Iau Porth Sgiwed a Sudbrook - maent wedi ceisio am £1,500 i ariannu cyrsiau hyfforddiant gorfodol Cymdeithas Bêl-droed Cymru ar gyfer hyfforddwyr gwirfoddol y clwb.<br><br>Argymhelliad: Dyfarnwyd £500 i alluogi hwyluso parhad clwb chwaraeon lleol yn wirfoddol er mwyn darparu gweithgareddau hamdden i bobl ifanc. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **2** | FFIOEDD RHEOLIADAU ADEILADAU | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | DATRYS:<br>Cytunwyd y cynnydd o 10% yn y Ffioedd Rheoliadau Adeiladau a osodwyd. |
| **Additional Information:** | | | | |
| | | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | |
| | | | | |